

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Pwyllgor:	Pwyllgor Safonau
Dyddiad :	11 Mawrth 2020
Teitl:	Materion Aelodau Etholedig
Pwrpas yr adroddiad:	Adrodd ar gynnydd hyd yma
Awdur:	Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

1.0 Cefndir

Diben yr adroddiad hwn yw diweddarau'r Pwyllgor ar wahanol faterion yn ymwneud ag Aelodau.

1.1 Adroddiadau Blynyddol gan Aelodau

Fe adroddwyd i'r cyfarfod diwethaf ar drefniadau ar gyfer paratoi adroddiadau blynyddol am y cyfnod 2018/19.

Mae rhan 5 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gosod cyfrifoldeb ar Awdurdod Lleol i sicrhau bod trefniadau mewn lle er mwyn i Aelodau baratoi adroddiadau blynyddol ar eu gwaith.

O safbwynt adroddiadau blynyddol ar gyfer 2018/19 mae 28 o Aelodau wedi paratoi adroddiadau hyd yn hyn – gweler y ddolen isod:

<https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Cyngor/Cynghorwyr-AC-AS-ASE/Adroddiadau-blynyddol-y-cynghorwyr.aspx>

Diweddarwyd Arweinyddion Grwpiau ar y gwaith o baratoi adroddiadau ar gyfer 2019/20. Bydd templedi yn cael eu hanfon i bob Aelod yn unigol ddiwedd mis Mawrth a chais i gwblhau adroddiadau erbyn diwedd Ebrill, ac yna byddant yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor ym mis Mehefin 2020.

1.2 Adroddiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau 2020/21

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi cyhoeddi eu hadroddiad blynyddol ar lwfansau i'w talu yn 2020/21. Ychydig iawn o newid a wneir ar wahân i godi'r cyflog sylfaenol i £14,218, sef cynnydd o £350 y flwyddyn, sy'n cyfateb i 2.5%. Ni fydd unrhyw gynnydd i'r uwch gyflogau ond bydd y cyfanswm a delir yn adlewyrchu'r cynnydd o £350 i'r cyflog sylfaenol.

Mae'r Panel yn nodi yn yr adroddiad blynyddol mai ychydig iawn o aelodau sy'n defnyddio'r ddarpariaeth yn y fframwaith i ad-dalu costau gofal. Maent yn cydnabod y materion sy'n gysylltiedig â chyhoeddi'r draul ddilys hon. Caiff hyn eu hadlewyrchu yn y newid a wnaed i'r gofynion cyhoeddi, sef mai dim ond y cyfanswm yr ad-dalwyd yn ystod y flwyddyn y dylai'r awdurdodau perthnasol ei

gyhoeddi. Mater i bob awdurdod fydd penderfynu ar ei ymateb i unrhyw geisiadau Rhyddid Gwybodaeth y bydd yn eu derbyn. Fodd bynnag, ni fwriedir i fanylion unrhyw hawliadau unigol gael eu datgelu

Mae Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gynabyddiaeth Ariannol 2020/21 (Chwefror 2020) ar gael yma:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-02/adroddiad-blynyddol-2020-i-2021.pdf>

Bydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn derbyn adroddiad ar hyn.

1.3 Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

Ymgynghorwyd ar gynnwys Bil Llywodraeth Cymru yn ddiweddar. Mae'r Bil yn cynnwys nifer eang o faterion y bydd angen rhoddi sylw iddynt yn y dyfodol. Bydd adroddiad ar wahân yn delio gyda'r Bil. Mae un rhan o'r Bil yn delio gyda chyhoeddi cyfeiriadau cartref aelodau ar wefan y Cyngor. Ymgynghorwyd gydag Aelodau yn ddiweddar ar y cwestiwn hwn yn sgil sylwadau yn y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd cyn y Nadolig. Bellach mae rhai Aelodau wedi dewis peidio â chyhoeddi cyfeiriadau cartref ar wefan y Cyngor felly cyfeiriad y Cyngor yn unig sy'n ymddangos.

2.0 Argymhelliad:

Nodi gwybodaeth yn yr adroddiad.

Huw Jones
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
2 Mawrth, 2020